# SL(6)578 – Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2025

## Cefndir a diben

Mae Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn nodi'r cyrff sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae'r Gorchymyn hwn yn mewnosod y cyrff ychwanegol a ganlyn yn Atodlen 6:

- Panel Dyfarnu Cymru
- Y Comisiwn Ffiniau i Gymru
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Nid yw'r Gorchymyn hwn ei hun yn gosod unrhyw ddyletswyddau o ran y Gymraeg ar y cyrff hynny, ond mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau,[1] wneud y safonau a ganlyn o ran y Gymraeg yn benodol gymwys i'r cyrff hynny:

- Safonau cyflenwi gwasanaethau
- Safonau llunio polisi
- Safonau gweithredu
- Safonau cadw cofnodion

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Gorchymyn gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Gorchymyn oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Gorchymyn drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae'r Gorchymyn hwn yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol. Fel y nodir gennym uchod, mae hyn yn golygu bod yn rhaid gosod drafft o'r Gorchymyn gerbron y Senedd, a dim ond os bydd y Senedd yn cymeradwyo'r Gorchymyn drafft y gellir gwneud y Gorchymyn.

[1] Yn yr achos hwn, y rheoliadau perthnasol yw Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1, Rhif 2, Rhif 4, Rhif 6 a Rhif 7) (Diwygio) 2025.

Fodd bynnag, mae rhagymadrodd y Gorchymyn drafft hwn yn cynnwys y testun a ganlyn (ein pwyslais ni):

> *Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 35 a 38 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, **ac wedi cael cymeradwyaeth Senedd Cymru** yn unol ag adran 150(2) o'r Mesur hwnnw, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.*

Mae'r geiriad hwn yn awgrymu mai Gweinidogion Cymru neu'r pwerau galluogi sy'n cael cymeradwyaeth y Senedd. Fodd bynnag, y **Gorchymyn drafft** sy'n cael cymeradwyaeth y Senedd.

Nid yw'n glir pam y dewisodd Llywodraeth Cymru y geiriad hwn yn y rhagymadrodd ac nid y geiriad safonol, cydnabyddedig a geir mewn offerynnau cadarnhaol drafft eraill sy'n ei gwneud yn glir mai'r offeryn drafft y mae angen ei gymeradwyo gan y Senedd. Er enghraifft, mae Rheoliadau Safonau Marchnata Wyau Maes (Diwygio) (Cymru) 2025[2] yn cynnwys y geiriad clir a ganlyn:

> *Yn unol ag adran 50(6) o'r Ddeddf, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.*

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu Technegol:

Nid yw'r Llywodraeth o'r farn bod y gwaith drafftio hwn yn ddiffygiol, ac mae'r cyfeiriad at adran 150(2) o'r Mesur yn ei gwneud yn glir mai'r offeryn statudol drafft sy'n cael cymeradwyaeth.

Defnyddir y geiriad hwn yn y rhagymadrodd ym mhob un o'r wyth set o Reoliadau Safonau sydd eisoes yn bodoli.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 10 Chwefror 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

---

[2] Gosodwyd ar 28 Ionawr 2025.